LLGC NLW
LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Gwirfoddoli
Volunteering
HAF 2025 | RHIFYN 19

# LLAIS GWIRFODDOLWYR



Ysgrifennwyd gan: Samantha Storey

## Yn ôl eto!

Rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi bod cylchlythyr y gwirfoddolwyr yn ôl!
Ar ôl saib o ddwy flynedd, mae'r cylchlythyr wedi ailgychwyn yr haf hwn. Byddwn yn rhannu gwybodaeth am brosiectau, gwirfoddolwyr, a staff sy'n gwneud gwirfoddoli yn y Llyfrgell Genedlaethol yn arbennig.
Bydd y cylchlythyr yn parhau i roi gwybodaeth bwysig ac unrhyw newyddion am ddatblygiadau diweddaraf ym maes gwirfoddoli. Mae ein gwirfoddolwyr yn gweithio'n galed, boed wyneb yn wyneb neu o bell, ar amryw o dasgau sy'n helpu i wella'r Llyfrgell. Mae hyn yn cryfhau profiad gwirfoddoli, adeiladu cymuned, a chefnogi chyflogadwyedd.
Mae'r berthynas rhwng gwirfoddolwyr a'r Llyfrgell yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr - nid yn unig i'r gwirfoddolwyr a'r Llyfrgell, ond hefyd i gymuned ehangach Aberystwyth. Mae tynnu sylw at waith y gwirfoddolwyr yn helpu i wreiddio'r Llyfrgell Genedlaethol fel canolfan sy'n falch o feithrin sgiliau ac annog cymdeithasu - i bobl lleol ac ymwelwyd sy'n ymweld fel ei gilydd.

## ...ond yn wahanol!

Mae'r cylchlythyr yn ôl, ond gyda newid mawr. O hyn ymlaen, y gwirfoddolwyr gwahanol fydd yn ysgrifennu'r cylchlythyr bob chwarter. Gyda phob cyhoeddiad, bydd gwirfoddolwr newydd yn cynnig eu safbwynt unigryw a'u steil ysgrifennu eu hunain, gan drafod digwyddiadau a newyddion cyfredol yn y maes gwirfoddoli.

Mae'r prosiect hwn yn ffurfio gwaith y rôl newydd sef **Ysgrifennwr Preswyl y Newyddlen (YPN)** ar gyfer gwirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn ysgrifennu, cyfathrebu, a chreu straeon. Yn ogystal â thynnu sylw at newyddion gwirfoddoli, bydd pob **YPN** yn rhannu eu profiad personol fel gwirfoddolwr.

# Beth sy'n newydd yn y gymuened wirfoddoli?

Rydyn ni'n gyffrous i rannu bod y Llyfrgell Genedlaethol wedi derbyn grant o £60,000 gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) i helpu i drawsnewid ein gwasanaethau gwirfoddoli. Diolch i'r cyllid hwn, rydyn ni bellach yn gweithredu'r **Rhaglen Mentora Cydymaith**. Menter gefnogol sydd â'r nod o feithrin cysylltiad, hyder, a lles drwy baru gwirfoddolwyr â mentoriaid sy'n cynnig anogaeth, arweiniad, ac ymdeimlad cyfeillgar drwy gydol eu profiad gwirfoddoli.

I unrhyw wirfoddolwyr newydd neu hirsefydlog sy'n awyddus i feithrin hyder, datblygu sgiliau newydd, neu sy'n chwilio am ymdeimlad o gymuned, mae'r rhaglen hon yma i'ch cefnogi. Os hoffech ddysgu mwy, galwch heibio swyddfa'r tîm cymorth neu anfonwch e-bost atom: VOLUNTEERING@LIBRARY.WALES

## Ystadegau Cyfredol



**Cyfanswm y gwirfoddolwyr**
81 ers mis Mai eleni

**Pwy sy'n newydd?**
Rydyn ni'n estyn croeso cynnes i Sion, Grace, Gethin, a Barbra. Croeso enfawr yn ôl i Carmen, sy'n dychwelyd i'r gymuned wirfoddoli ar ôl 10 mlynedd!

**Oriau gwirfoddoli**
Dros fis Mehefin a Gorffennaf, mae 1,560 awr o wirfoddoli wedi'u neilltuo i'r Llyfrgell

**Prosiectau a thasgau ar y gweill**
Mae 15 o dasgau a phrosiectau ar y gweill ar hyn o bryd, ac mae 4 wedi'u cwblhau yn ystod y misoedd diwethaf!





## Clwb Sgwrsio

Os ydych chi'n dysgu Cymraeg, mae cyfle o hyd i ymarfer y Gymraeg mewn awyrgylch cyfeillgar ac anffurfiol.

Mae'r clwb yn cwrdd bob dydd Llun rhwng 11:00 – 11:45 yng Nghaffi Pen Dinas.

Cysylltwch ag Eilir am fwy o wybodaeth ynglŷn â chofrestru: EILIR.EVANS@LLYFRGELL.CYMRU



**Samantha Storey**

# Cwrdd â Samantha, Ysgrifennwr Preswyl ar gyfer y rhifyn hwn!

**Pam wnest ti ddechrau gwirfoddoli a faint o amser wyt ti wedi bod yn gwirfoddoli yn y Llyfrgell?**
Rwy'n fyfyriwr MA mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgell yn y Brifysgol ac wedi mwynhau gwirfoddoli mewn llyfrgelloedd ers blynyddoedd.
Fe wnaeth fy nghydletywyr, sydd hefyd yn fy adran, ddechrau gwirfoddoli y llynedd, ac fe'm hysbrydolwyd i ymuno ers mis Mawrth eleni.

**Pa fath o dasgau gwirfoddoli wyt ti'n ymwneud â nhw?**
Rwyf newydd gwblhau prosiect yn uwchlwytho data o bosteri Cymraeg a gasglwyd dros y ganrif ddiwethaf i ffeil Excel. Ar hyn o bryd, rwy'n diwygio teitlau rhaglenni ITV drwy grynhoi'r cynnwys, hefyd i Excel.

**Yn dy farn di, beth yw manteision gwirfoddoli yn Y Llyfrgell?**
Rwyf wedi dysgu cymaint am hanes Cymru dros y misoedd diwethaf drwy ddod ar draws posteri a clipiau ITV sy'n dangos digwyddiadau pwysig ym myd cerddoriaeth, celf, gwleidyddiaeth a diwylliant. Dydw i ddim yn meddwl y byddwn i'n cael y math hwn o brofiad yn unman arall ond yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny.

**Hoff le a pham?**
Fy hoff le yw Epcot yn Disney World. Mae'n hwyl iawn ymweld â'r holl 'wledydd' mewn un diwrnod, ac rwy'n meddwl mai dyma'r reidiau gorau hefyd!

**Beth wyt ti'n mwynhau ei wneud yn dy amser hamdden? (Hobiau/diddordebau)**
Rwy'n mwynhau darllen nofelau ffantasi/glasurol, lluniadu, croesi, chwarae gemau fideo, a pobi.

**Dy hoff gyfnod hanesyddol?**
Mae'n debyg mai'r 80s' – oherwydd mi wnes i dyfu i fyny yn gwrando ar ganeuon ac yn gwylio ffilmiau hoff fy rhieni o'r cyfnod hwnnw pan oeddwn i'n fach.

**Rhaglen deledu/ffilm hoff a pham?**
Fel ffan Star Wars, roeddwn i'n dwlu ar Andor am y ddrama wleidyddol a'r gweithredu.

**Ffaith ddiddorol amdanoch chi...**
Rwy'n dod o'r Unol Daleithiau ac wedi byw mewn pum talaith wahanol.

# Cwrdd â'n aelod newydd o staff!



Thea Batty

**Beth yw dy rôl yn y Llyfrgell?**
Fy rôl yw cefnogi'r gwirfoddolwyr a'r adran. Rwyf hefyd yn cydlynu'r Rhaglen Mentora Cydymaith newydd ar gyfer gwirfoddolwyr, sy'n meithrin cysylltiadau drwy gydweithio â'i gilydd.

**Pa ysgol a phrifysgol wnest ti fynychu?**
Rwy'n ferch leol, es i i Ysgol Uwchradd Tregaron (sy'n Ysgol Henry Richards erbyn hyn) ac wedyn astudiais ym Mhrifysgol Bath Spa. Rwy'n dwlu ar Bath – mae'n un o'm hoff ddinasoedd.

**Beth yw dy hobiau neu ddiddordebau?**
Yn ddiweddar, rwy'n dwlu ar ddarllen nofelau ffantasi. Rwy'n treulio'r rhan fwyaf o'm hamser yn trwsio dillad yn greadigol ac yn mwynhau rhannu gwybodaeth am ffasiwn cynaliadwy. Rwy'n dipyn o nerd hefyd am hanes cymdeithasol sy'n ymwneud â gwaith menywod ym maes tecstilau.

**Ffaith ddiddorol amdanoch chi?**
Rwy'n dod o linach o fwy na phum cenhedlaeth o fenywod a fu'n gweithio mewn ffatrioedd dillad/tecstilau. Rwy'n meddwl bod hynny'n hynod ddiddorol.

**Dy hoff gyfnod hanesyddol?**
Mae gen i ddau gyfnod hoff oherwydd maen nhw'n debyg i'w gilydd: y Roaring 20s' a Swinging 60s'. Roedd y ddau gyfnod yn llawn diwylliant pop, ffasiwn, a mudiadau ieuenctid.

**Rhaglen deledu/ffilm hoff?**
Mae'n anodd dewis rhaglen deledu, ond rwy'n ffan fawr o ffilmiau. Fy hoff ffilmiau yw triawd The Lord of the Rings.

**Beth yw dy hoff fwyd?**
Dumplings Gyoza, wrth gwrs!



**Enwa 3 pheth fyddech chi'n eu cymryd i ynys anghysbell.**
Cyllell fyddin o'r Swistir, gwialen bysgota, a set wnio.

Yn awyddus i ymuno â'n cymuned wirfoddoli? Cysylltwch â ni:
Eilir Evans | Cydlymydd Gwirfoddolwyr
Ebost: volunteering@library.wales
Ffôn: (01970) 632424